Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Medi 2019

Crynodeb o'r fasnach cig coch yn y DU yn ystod chwe mis cyntaf 2019.

## CIG DEFAID

**Allforion cig defaid +23%** (Ion – Meh 2019)

Yn ôl ystadegau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), cafwyd cynnydd sylweddol yn yr allforion o'r DU yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, allforiwyd cyfanswm o 44,370 tunnell o'r DU, sef 23.3% (8,390 tunnell) yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Aeth 96% o'r holl allforion cig defaid hyd yma i farchnadoedd yn yr Undeb Ewropeaidd. Allforiwyd 15% yn fwy o'r naill flwyddyn i'r llall i Ffrainc, sef 38% o'r holl allforion yn ystod y cyfnod. Cafwyd cynnydd sylweddol yn yr allforion i'r Almaen hyd yma eleni; allforiwyd 4,000 tunnell (61%) yn fwy yn ystod y chwe mis. Hefyd, anfonwyd mwy o gig defaid i Iwerddon; allforiwyd bron 6,000 tunnell, sef 18% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd yn yr allforion yn adlewyrchu'r cynnydd o 9.7% yn y cig defaid a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod hwn. Am fod y bunt yn wannach, yn arferol gellid disgwyl marchnad gref i allforion yn ystod ail hanner y flwyddyn; fodd bynnag, bydd canlyniad y drafodaeth i ymadael a'r UE yn dylanwadu'n fawr ar y sefyllfa.

Cyfanswm mewnforion cig defaid i'r DU yn ystod hanner cyntaf 2019 oedd 37,950 tunnell, sef mwy na 7,000 tunnell (15.8%) yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Er bod Seland Newydd yn dal i allforio mwy o gig defaid i'r DU na neb arall, ac yn gyfrifol am bron i 70% o'r mewnforion, roedd pwysau'r mewnforion bron 6,000 tunnell (18%) yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod yr un cyfnod, mewnforiwyd 33% yn fwy o Iwerddon, sef yr unig wlad a gynyddodd ei hallforion. Rhagwelir y bydd hi'n weddol dawel o ran mewnforion am fod y cyflenwad yn fyd-eang yn gyfyngedig a'r prisiau'n uchel.

## CIG EIDION A CHIG LLO

**Mewnforion cig eidion a chig llo -12%** (Ion – Meh 2019)

Cyfanswm yr allforion cig eidion a chig llo yn y cyfnod o chwe mis oedd 62,600 tunnell, sy'n 6,100 tunnell (10.8%) yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Iwerddon oedd y prif gyrchfan ar gyfer allforion cig eidion ac roedd yn gyfrifol am 30.5% o'r holl allforion hyd yma eleni - er gwaethaf gostyngiad o 2.5% yn y pwysau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y gyrchfan allforio ail fwyaf oedd yr Iseldiroedd, lle gwelwyd cynnydd o 7.9% yn y pwysau a chyfran o 23% o'r farchnad allforion cig eidion. Dylanwadwyd ar y cynnydd ym mhwysau'r allforion gan y cynnydd yn y cig a anfonwyd i Ffrainc, un arall o farchnadoedd traddodiadol y DU. Derbyniodd y wlad honno 1,300 tunnell ychwanegol yn ystod y cyfnod, sef 27.7% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Aeth 81% o'r holl gig eidion a chig llo a allforiwyd hyd yma eleni i farchnadoedd yn yr Undeb Ewropeaidd.

Roedd pwysau'r mewnforion cig eidion i'r DU yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mehefin yn 12.3% yn llai mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol yn 2018. Yn ôl y disgwyl, Iwerddon oedd y prif allforiwr ac roedd yn gyfrifol am bron 80% o'r holl gig a ddaeth i mewn i'r DU, er gwaethaf y ffigurau sy'n dangos bod 5.2% yn llai o gig na'r flwyddyn flaenorol wedi cyrraedd o Iwerddon. Rhagwelwyd llai o fewnforion yn dilyn y lefel uchel o allforion o Iwerddon yn ystod 2017 a 2018 (anifeiliaid byw a chig fel ei gilydd) a allai fod wedi cyfyngu ar nifer yr anifeiliaid a oedd ar gael i'w lladd eleni. O blith y prif allforwyr eraill, daeth llai o gig o'r Almaen (-43.5%) a Gwlad Pwyl (-15.1%).


## CIG MOCH


Roedd cyfanswm yr allforion cig moch yn 10.2% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Allforiwyd 115,300 tunnell o borc o'r DU yn ystod chwe mis cyntaf eleni, sef cynnydd sylweddol o 8.5% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn gynt. Cafwyd y cynnydd mewn allforion er taw 1.0% yn unig oedd y cynnydd yn y cig moch a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod hwn. Tsieina yw'r brif gyrchfan o hyd. Derbyniodd bron i draean (28.4%) o'r holl borc a allforiwyd yn ystod y cyfnod. Yn dilyn galw mawr am borc wedi'i fewnforio ar draws Asia oherwydd Clwy Affricanaidd y moch, derbyniodd Tsieina 14,000 tunnell ychwanegol yn ystod y cyfnod, sef 77.4% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

**Crynodeb o allforion cig coch y DU** (Ion - Meh)

| | 2019 | 2018 | *% y newid o'r naill flwyddyn i'r llall* |
|---|---|---|---|
| Cig defaid | 44,375 | 35,986 | *23%* |
| Cig eidion a chig llo | 62,632 | 56,526 | *11%* |
| Cig moch | 183,083 | 166,069 | *10%* |
| **YR HOLL GIG COCH** | **290,089** | **258,581** | ***12%*** |

*Ffynhonnell: HMRC*









## GWARTHEG

Roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yng Nghymru a Lloegr yn 185.8c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf a ddaeth i ben ar 31 Awst, sef 8.1c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol, a 10.1c yn is nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r prisiau pwysau byw wedi tueddu i fod yn is nag yn 2018 ers dechrau'r flwyddyn, ac mae'r pris ar hyn o bryd yn 6.2c yn is na'r cyfartaledd pum-mlynedd (cyfartaledd 2014-18: 192.0c/kg). O ran prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr, yn yr wythnos yn diweddu 31 Awst, cafwyd cynnydd o 0.5c i 311.7c/kg ym mhris cyfartalog y teirw ifanc a chynnydd o 0.3c i 323.1c/kg ym mhris yr heffrod. Gostwng 0.5c i 321.5c/kg wnaeth pris y bustych o'r naill wythnos i'r llall, ac mae'r pris ar hyn o bryd yn 39.6c yn is nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

Cyfanswm y gwartheg a laddwyd yn lladd-dai'r DU ym mis Gorffennaf 2019 oedd 214,4000. Mae hyn yn 2.6% yn uwch nag yn y mis blaenorol, ond yn 3.9% (8,800 o wartheg) yn is nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Yn ystod y mis, lladdwyd 1.0% yn llai o wartheg dethol nag ym mis Gorffennaf y llynedd, ond lladdwyd cymaint â 12.1% yn llai o fuchod a theirw difa. Am fod llai o fuchod difa wedi eu lladd, roedd cyfanswm y cig eidion a chig llo a gynhyrchwyd yn 0.7% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.









## DEFAID

Roedd dyfynbris ansawdd safonol (SQQ) cyfartalog ym marchnadoedd da byw Cymru yn yr wythnos yn diweddu 31 Awst wedi gostwng i 170.1c/kg. Cafwyd gostyngiad o 1.7c yn y pris o'r naill wythnos i'r llall ac mae erbyn hyn yn 8.9c yn is nag oedd yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn ôl. I raddau helaeth, mae'r prisiau pwysau byw wedi dilyn y duedd bum-mlynedd oddi ar fis Chwefror. Yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, roedd y pris yn 0.6c yn is na'r cyfartaledd o 170.7c/kg ar gyfer 2014-18. Roedd prisiau pwysau marw ym Mhrydain yn 392.0c/kg yn yr wythnos yn diweddu 24 Awst, ac yn dal i fod yn 33.7c yn is nag oeddynt flwyddyn yn gynharach.

Cafodd 1.2 miliwn o ddefaid eu lladd yn lladd-dai'r DU ym mis Gorffennaf, sef 21.6% yn fwy nag ym mis Mehefin, a 6.5% yn fwy nag yn y mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Ŵyn dethol oedd bron 90% o'r holl drwybwn yn ystod y mis, a hyn oedd i gyfrif am y cynnydd o 5.7% o'r naill flwyddyn i'r llall. Wrth edrych ar y cyfnod rhwng Mai a Gorffennaf eleni, mae niferoedd yr ŵyn dethol yn 7.1% yn uwch nag oeddynt flwyddyn yn gynharach. Ym mis Gorffennaf, cynhyrchwyd mwy o gig defaid nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Y rheswm am hyn oedd y cynnydd yn nifer yr ŵyn Tymor Newydd a gafodd eu gwerthu, ynghyd â chynnydd o 12.6% yn nifer y mamogiaid a hyrddod difa a laddwyd.




## MOCH

Roedd pris yr holl foch pwysau marw (manyleb yr UE) ym Mhrydain yn 155.6c/kg yn yr wythnos yn diweddu 24 Awst. Yn dilyn tuedd i gynyddu ers mis Ebrill, mae hyn yr un peth a'r wythnos flaenorol. Dyma'r 9fed wythnos yn olynol i'r pris fod yn uwch na phris yr wythnos gyfatebol yn 2018. Mae adroddiadau'n awgrymu bod galw mawr am borc gan ranbarth Asia am fod Clwy Affricanaidd y Moch yn hybu'r galw ac yn cynnal y prisiau. Roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg ym Mhrydain am yr wythnos yn diweddu 24 Awst wedi gostwng 3.3% i £53.20 y pen wrth gymharu a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, tra bod y pris am berchyll 7kg yn £39.01 y mochyn – 1.6% yn is nag y llynedd.

Roedd nifer yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU yn 928,200 ym mis Gorffennaf, sef 12.2% yn fwy nag ym mis Mehefin, a 2.7% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Lladdwyd 909,100 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Mehefin, sef 12.3% yn llai nag yn y mis blaenorol a 2.9% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Yn dilyn lladd mwy o foch na'r llynedd, cynhyrchwyd 4.8% yn fwy o borc. Mae'n debygol taw rheswm arall am y cynnydd oedd am fod y carcasau – yn enwedig carcasau hychod a baeddod – yn 5.0kg yn drymach nag ym mis Gorffennaf y llynedd.